

CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR BRO LLANGELEL
2016

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol Nos Lun, Mai 23ain 2016 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am eu cydweithrediad tra yn y gadair ac i'r Clerc am ei chefnogaeth. Roedd yn dda gweld Cyng I Davies nôl yn dilyn damwain yng nghyfarfod y Cyngor. Mae'r C S K Howell yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth.

PRESENNOL: Cyng.- Adrian Thomas (Cadeirydd), John Crossley, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones, Nesta Jones, Marc Rees, Caroline Roberts, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones

Heddlu – PC Ian Ayers – dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd yn mynd o gwmpas Ysgolion Ceredigion a Sir Gâr fel swyddog cyswllt.

1. 05/16 YMDDIHEURIADAU: Cyng Jamie Ayres, Christopher Jones, Mary Phillips, CS Ken Howell.

2. 05/16 CADARNHAU COFNODION 2015:

Roedd y cofnodion wedi ei cadarnhau yng nghyfarfod 29:6:2015

Cynigydd: Cyng. C Jones

Eilydd: Cyng. J Ayres

3. 05/16 ETHOL CADEIRYDD:-

Gan nad oedd y Cyng C Roberts yn barod i aros fel Cadeirydd Cynigwyd i'r Cyng. Adrian Thomas barhau am flwyddyn arall gan y Cyng. B Jones ac Eiliwyd gan Cyng. J Crossley. Cytunwyd yn unfrydol ar y cynnig.

Ail Etholwyd Cyng. Adrian Thomas.

4. 05/16 ETHOL IS-GADEIRYDD:-

Cytunwyd yn unfrydol y dylid ethol Is Gadeirydd yn y cyfarfod misol nesaf er mwyn i'r Cynghorwyr gael y cyfle i ofyn ymlaen llaw i aelod o'r Cyngor ymgymryd a'r swydd

5. 05/16 LWFANS Y CADEIRYDD:

Am y flwyddyn 2016 – 2017 cadw'r lwfans yn £500 i'w dalu ar ddechrau ei th/dymor yn y gadair.

6. 05/16 CYFLOG Y CLERC: Penderfynwyd codi'r cyflog o £418.75 y mis i £433.33

7. 05/16 MANTOLEN 2015 – 2016:

Derbyniwyd y fantolen wedi ei archwilio a'i cael yn gywir gan yr Archwilydd Mewnol – Mrs Ann James

Cynigydd – Cyng John Wigley

Eilydd – Cyng Dilwyn Smith

8. 05/16 APWYNTIO ARCHWILYDD MEWNOL am 2015-16:

Cytunwyd i ofyn i Mrs Ann James o Gapel Iwan i fod yn Archwilydd Mewnol eto am y flwyddyn 2016-17.

9. 05/16 CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Neuadd y Ddraig Goch - Cyng. Christopher Jones

Parc Puw Drefach - Felindre - Cyng. Ian Davies

Llywodraethwyr Bryn Saron - Cyng. John Wigley

Llywodraethwyr Penboyr - Cyng. Dilwyn Smith

Y Pwerdy Llandysul - Cyng. Jamie Ayres

Clwb Garddio – Cyng C Roberts

10. 05/16 MATERION CYFANSODDIADOL:

Cytunwyd i dderbyn y cynnig bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar nos Lun olaf bob mis am 7.30y.h arwahan i fisoedd Awst a Rhagfyr pan na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Ym mis Mai os bydd y dydd Llun olaf yn cwmpo ar Wyl y Banc bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y nos Lun wythnos cynt. Yr un peth i ddigwydd os bydd unrhyw nos Lun cyfarfod arall, yn ystod y flwyddyn, yn syrthio ar Wyl y Banc yr un fydd y drefn.

Unrhyw fater angen gwaith cyfreithiol i gael ei ddelio gyda Mrs Eleri Thomas & Co, Cyfreithwyr, CN Emlyn

Dyddiadau Cyfarfodydd 2015/16

2016:- Mehefin 27ain, Gorffennaf 25ain, Medi 26ain, Hydref 31, Tachwedd 28ain,

2017:- Ionawr 30ain, Chwefror 27ain, Mawrth 27ain, Ebrill 24ain, Mai 22ain

Yn dilyn rhan ffurfiol y cyfarfod cyflwynodd y Cadeirydd Cyng. Adrian Thomas bathodyn a rhuban Cyn Gadeirydd i'r Cynghorwyr sydd wedi bod yn Gadeiryddion yn y gorffennol ac ar bob rhuban rhoed bar ac arno yn dynodi'r flwyddyn y buont yn y swydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh